COFNODION CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD AR FFURF HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR – Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB / O BELL AR MICROSOFT TEAMS DDYDD MAWRTH, 22 GORFFENNAF 2025 AM 14:30

Yn Bresennol

Y Cynghorydd JC Spanswick – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| N Farr | J Gebbie | E L P Caparros | P Davies |
| M J Evans | M Jones | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd HM Williams a’r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau.

Datganiadau o Fuddiant

Datganodd y Cynghorydd Melanie Evans fuddiant rhagfarnus yn eitem 15 ar yr agenda, gan ei bod yn Llywodraethwr Cymunedol yn Ysgol Gynradd Croesty ac Ysgol Gyfun Pencoed. Gadawodd y Cynghorydd Evans y cyfarfod tra ystyriwyd yr eitem hon.

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Jake Morgan | Prif Weithredwr |
| Carys Lord | Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, AD a Pholisi Corfforaethol |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc |
| Martin Morgans | Pennaeth Gweithrediadau Dros Dro – Gwasanaethau Cymunedol |
| Michael Pitman | Swyddog Cymorth Technegol – Gwasanaethau Democrataidd |
| Louis Pannell | Uwch Swyddog Polisi Cynllunio Strategol |
| Jonathan Parsons | Rheolwr Grŵp Cynllunio a Datblygu |

| | |
|---|---|
| Paul Smith | Rheolwr y Rhaglen Ddatgarboneiddio |
| Stuart Baldwin | Rheolwr Ymateb i Newid Hinsawdd |
| Matt Jenkins | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Integredig Rhanbarthol CBSRhCT |
| Helen Pembridge | Rheolwr Tîm Gorfodi Tai a Rheoli Llygredd (Pen-y-bont ar Ogwr a'r Fro) |
| Georgina Wayman | Swyddog Iechyd yr Amgylchedd |
| Stephanie Thomas | Rheolwr Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant |

**495. Cymeradwyo Cofnodion**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD: Bod cofnodion cyfarfod y Cabinet dyddiedig 24/6/2025, yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 22 Gorffennaf 2025 |

**496. Cae 3G Ysgol Gyfun Bryntirion**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd y Pennaeth Gweithrediadau Dros Dro – Gwasanaethau Cymunedol adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i dderbyn cyllid allanol gwerth £559,768 gan y Cry First Foundation i ddatblygu cae 3G yn Ysgol Gyfun Bryntirion ac i gymeradwyo cytundeb rheoli gyda'r ysgol.<br><br>Dywedodd fod y cae 2G presennol ar ddiwedd ei oes, ac mae galw cynyddol am gyfleusterau cae chwaraeon artiffisial ledled y fwrdeistref. Byddai datblygu'r cae arfaethedig yn Ysgol Gyfun Bryntirion yn helpu i ddiwallu'r galw cynyddol, a nodir manylion y cyfleuster arfaethedig yn adran 3 yr adroddiad.<br><br>Cadarnhaodd y Cynghorydd Paul Davies fod y cyllid yn grant, nid benthyciad, ac nad oes angen mewnbwn ariannol gan yr awdurdod.<br><br>Holodd y Cynghorydd Caparros ynglŷn â chynaliadwyedd amgylcheddol deunyddiau'r cae a'r gwaith o'i gynnal; cadarnhaodd y swyddog y byddai'r rhain yn cael eu hystyried yn ystod y broses gaffael. |

| | |
|---|---|
| | Cododd y Dirprwy Arweinydd bryderon ynghylch a oedd digon o staff mewn ysgolion i reoli cyfleusterau cymunedol, gan awgrymu trafodaeth bellach i reolaeth allanol. Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles waith parhaus gyda Halo ynghylch safleoedd 'defnydd deuol'.<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet:<br><br>1. Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad hwn a chadarnhaodd gymeradwyaeth i dderbyn cyllid grant mewn cysylltiad â'r cynnig hwn.<br><br>2. Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad hwn a chadarnhawyd cymeradwyaeth i'r prosiect ac ymrwymwyd i gytundeb rheoli priodol.<br><br>3. Wedi dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau i drafod telerau terfynol y cytundeb rheoli mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Cyllid a'r Cyfarwyddwr Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc i ymrwymo i'r cytundeb rheoli ac unrhyw gytundebau atodol ac i ganiatáu unrhyw ganiatâd angenrheidiol sydd eu hangen ar ran y Cyngor. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 22 Gorffennaf 2025 |

## 497. Strategaeth Sero Net Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd y Pennaeth Gweithrediadau Dros Dro – Gwasanaethau Cymunedol adroddiad a ddiweddarodd y Cabinet ar y gwaith a wnaed i adolygu'r fersiwn ddrafft o Strategaeth Sero Net Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, sydd ynghlwm yn Atodiad 1. Ceisiodd hefyd gymeradwyaeth i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y strategaeth ddiwygiedig sydd ynghlwm yn Atodiad 2.<br><br>Dywedodd fod y Strategaeth yn cael ei hadolygu er mwyn sicrhau ei bod yn adlewyrchu polisi cyfredol Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, y technolegau a'r rheoliadau diweddaraf, ac opsiynau masnachol/ariannol. Nodir crynodeb o'r adolygiad yn adran 3 yr adroddiad.<br><br>Tynnodd yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd sylw at fantais ddeuol y strategaeth, gan nodi ei bod nid yn unig yn mynd i'r afael â phryderon amgylcheddol, ond hefyd yn cynnig cyfleoedd |

| | |
|---|---|
| | ariannol. Cyfeiriodd at enghraifft o arbediad gwerth £17,000 a gyflawnwyd trwy newid ffynonellau goleuadau a phŵer yn un o adeiladau'r Cyngor.<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet:<br><br>1. Wedi ystyried yr adolygiad o Strategaeth Sero Net Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Atodiad 1 i'r adroddiad) a chymeradwyodd ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth ddiwygiedig (yn Atodiad 2);<br><br>2. Wedi nodi y bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus yn ceisio cymeradwyo'r Strategaeth. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 22 Gorffennaf 2025 |

## 498. Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd y Pennaeth Gweithrediadau Dros Dro – Gwasanaethau Cymunedol adroddiad a oedd yn diweddaru'r Cabinet ar waith i ddatblygu fersiwn ddrafft o Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Ceisiodd hefyd gymeradwyaeth i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth ddrafft.<br><br>Ers 2019, mae awdurdodau lleol ledled Cymru wedi cyflawni dros 100 o brosiectau gwefru cerbydau trydan, gyda Gweithredwyr Pwyntiau Gwefru (CPOs) masnachol yn cyflawni llawer mwy. Ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, mae'r Cyngor eisoes wedi gosod llawer o wefrwyr mewn dros 30 o safleoedd, ac mae mwy na 2,900 o gerbydau trydan wedi'u cofrestru bellach yn y sir. Diben fersiwn ddrafft Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Atodiad 1) yw nodi gweledigaeth a chynlluniau i ddarparu rhwydwaith gwefru cynhwysol yn y dyfodol, gan adeiladu ar y gwaith a wnaed hyd yma. Ceir rhagor o wybodaeth yn adran 3 yr adroddiad.<br><br>Gofynnodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau sut byddai'r strategaeth yn sicrhau bod pob preswylydd yn elwa, gan gynnwys y rhai mewn ardaloedd nad ydynt yn drefol. Esboniodd y Rheolwr Ymateb i Newid |

| | |
|---|---|
| | Hinsawdd fod y strategaeth yn cynnwys gweithio gyda gweithredwyr pwyntiau gwefru a defnyddio grantiau allanol er mwyn eu hannog i osod pwyntiau gwefru mewn ardaloedd sydd â llai o alw amdanyn nhw. Bydd hyn yn sicrhau mathau amrywiol o bwyntiau gwefru er mwyn gwefru ar y stryd ac oddi arni.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet:<br><br>1. Wedi ystyried y fersiwn ddrafft o Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan (Atodiad 1 i'r adroddiad) a chymeradwyo ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth;<br><br>2. Wedi nodi y bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus sy'n ceisio cymeradwyaeth o'r Strategaeth. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 22 Gorffennaf 2025 |

## 499. Canllawiau Cynllunio Atodol Datblygiad Manwerthu a Masnachol

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd y Prif Swyddog Cynllunio Strategol a Pholisi adroddiad a oedd yn hysbysu'r Cabinet am ganlyniad ymgynghoriad cyhoeddus ar y fersiwn ddrafft o Ganllawiau Cynllunio Atodol Datblygiad Manwerthu a Masnachol. Ceisiodd hefyd gymeradwyaeth i gyflwyno'r CCA diwygiedig i'r Cyngor llawn i'w mabwysiadu.<br><br>Er ei hysbysebu'n eang, dywedodd mai ond dau sylwad a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori rhwng 19 Mawrth a 30 Ebrill. Nid oedd unrhyw wrthwynebiadau eang i'r canllawiau. Cynigiwyd tri mân newid yn seiliedig ar yr adborth, a manylir ar y rhain yn adran 3 yr adroddiad.<br>Wrth dderbyn cwestiwn am sut bydd y CCA yn cael eu monitro am gydymffurfiaeth, ymatebodd y Prif Swyddog Cynllunio Strategol a Pholisi y byddai hyn yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad monitro blynyddol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl).<br><br>Roedd yr Aelod Cabinet dros Adfywio, Datblygiad Economaidd a Thai yn falch o weld bod adborth wedi'i awgrymu a bod hyn yn cael ei ystyried gan y swyddogion. |

| | |
|---|---|
| | Holodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau am fonitro cydymffurfiaeth. Dywedodd y Prif Swyddog Cynllunio Strategol a Pholisi y byddai monitro yn digwydd yn flynyddol fel rhan o'r Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer y CDLl.<br><br>Roedd yr Arweinydd yn siomedig nad oedd Cynghorau Tref a Chymuned yn defnyddio'r cyfle i wneud sylwadau ar hyn ac roedd yn gobeithio y byddai mwy o ymgysylltiad yn y dyfodol.<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet:<br><br>1. Wedi nodi cynnwys yr adroddiad a'r ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd ar y fersiwn ddrafft o Ganllawiau Cynllunio Atodol Datblygiad Manwerthu a Masnachol, ynghyd â gwelliannau canlyniadol, ynghlwm fel Atodiad 2 i'r adroddiad.<br>2. Wedi cymeradwyo cyflwyno'r fersiwn derfynol o Ganllawiau Cynllunio Atodol Datblygiad Manwerthu a Masnachol (yn Atodiad 1) i'r Cyngor i geisio eu mabwysiadu. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 22 Gorffennaf 2025 |

## 500. Adroddiad Adran 19 ar gyfer y Storm Ddienw ar 6 a 7 Medi 2024

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd y Pennaeth Gweithrediadau Dros Dro – Gwasanaethau Cymunedol adroddiad a hysbysodd y Cabinet am ganlyniad ymchwiliad i'r llifogydd a gafwyd mewn sawl eiddo ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr o ganlyniad i storm ddienw ar 6 a 7 Medi 2024.<br><br>Nodwyd y digwyddiadau/mannau lle effeithiwyd fwyaf ar eiddo yn adran 3 yr adroddiad. Nodwyd nad oedd yr eiddo hyn wedi'u cysylltu mewn unrhyw ffordd heblaw trwy'r storm. Amlinellodd yr adroddiad ganlyniadau ymchwiliadau i achosion y llifogydd yn y lleoliadau a nodwyd ac roedd yn cynnwys cynlluniau gweithredu ac, os yw'n briodol, ymyriadau i liniaru yn erbyn llifogydd yn y dyfodol. Darparwyd amlinelliad o hyn yn adran 3 yr adroddiad.<br><br>Nododd yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd y gallai mwy o broblemau godi oherwydd y cynnydd disgwyliedig mewn digwyddiadau tywydd garw o ganlyniad i newid hinsawdd ac felly roedd yn |

| | |
|---|---|
| | bwysig ymchwilio i effeithiau'r stormydd hyn ac edrych ar y mesurau y gellir eu rhoi ar waith i'w lliniaru. Nododd, fodd bynnag, yr anhawster i liniaru llifogydd o dir heb ei fabwysiadu neu heb ei gofrestru a'r angen am gydweithio rhwng partneriaid.<br><br>Holodd yr Aelod Cabinet dros Addysg a Gwasanaethau Ieuenctid am nodi lleoliadau bregus eraill ar gyfer lliniaru risg yn y dyfodol. Esboniodd y Pennaeth Gweithrediadau Dros Dro – Gwasanaethau Cymunedol fod y tîm draenio tir yn defnyddio gwybodaeth o ddigwyddiadau ac yn mynd ati i fonitro mannau cyfyng, gylïau a cheuffosydd, gan gydweithio â Llywodraeth Cymru a phartneriaid. Ychwanegodd mai ymdrech amlasiantaethol oedd rheoli perygl llifogydd, gyda thirfeddianwyr, Dŵr Cymru, a National Rail. Cynghorodd drigolion i gysylltu â'u haelod lleol gyda phryderon.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet wedi nodi'r adroddiad Adran 19 sydd ynghlwm yn Atodiad 1. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 22 Gorffennaf 2025 |

**501. Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles yn Ailgomisiynu Gwasanaethau Gofal Cartref**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC) gynnal ymarfer caffael i wahodd tendrau i sefydlu Cytundeb Fframwaith o ddarparwyr gofal cartref a gomisiynir.<br><br>Cynghorodd mai hwn oedd y pedwerydd tendr o'r fath ers 2014, gyda'r nod o sicrhau gofal i drigolion agored i niwed. Cynigir fframwaith chwe blynedd ar y mwyaf. Caiff tendrau eu capio, a phennir cyfradd dâl deg yn unol â chanllawiau'r bwrdd comisiynu cenedlaethol i alluogi darparwyr i dalu cyflog byw gwirioneddol.<br><br>Gofynnodd yr Aelod Cabinet dros Adfywio, Datblygiad Economaidd a Thai a ellid rhoi ffigurau ar gyfer pwynt bwled 82. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles nad oedd ganddi'r ffigurau hynny wrth law ond y gallai eu rhoi yn dilyn y cyfarfod. |

| | |
|---|---|
| | Gofynnodd yr Arweinydd sut byddai oriau amrywiol yn gweithio gyda chontractau. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles nad oedd pecynnau lleiafswm yn cael eu gwarantu, gan ganiatáu hyblygrwydd, ac ni fyddai ailgydbwyso gofal gyda gwasanaethau mewnol neu ddielw yn effeithio ar gontractau unigol.<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet:<br><br>1. Wedi nodi cynnwys yr adroddiad hwn;<br>2. Wedi cymeradwyo caffael Cytundeb Fframwaith Gwasanaethau Gofal Cartref Rheoleiddiedig o ddarparwyr gofal cartref a gomisiynir;<br>3. Wedi dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles i dendro'r Cytundeb Fframwaith ar gyfer Cytundeb Fframwaith Gwasanaethau Gofal Cartref Rheoleiddiedig a nodi y bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn dilyn casgliad caffael y Cytundeb Fframwaith i benderfynu a ddylid dyfarnu'r Cytundeb Fframwaith a cheisio cymeradwyaeth i ymrwymo i'r Cytundeb Fframwaith gyda chynigwyr llwyddiannus. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 22 Gorffennaf 2025 |

**502. Cytundeb Partneriaeth Ranbarthol**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Integredig Rhanbarthol CBSRhCT adroddiad a ddiweddarodd y Cabinet ar y rhaglen waith rhwng Awdurdodau Lleol eraill ac argymhellodd gymeradwyo'r Cytundeb Partneriaeth Rhanbarthol (RPA) sydd ynghlwm fel Atodiad 1.<br><br>Mae datblygu RPA yn golygu y gallwn ddiweddaru'r trefniadau gweithio ffurfiol presennol gyda'r bwrdd iechyd ar gyfer Tîm Adnoddau Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr (CRT). Y bwriad oedd i'r cytundeb gael ei gymeradwyo gan bob partner ym mis Gorffennaf 2025 cyn mynd yn fyw yn ei iteriad cyntaf yn yr hydref. Nodwyd rhagor o wybodaeth yn adran 3 yr adroddiad.<br><br>Esboniodd y Dirprwy Arweinydd fod cytundeb Adran 33 yn galluogi sefydliadau i gyflawni swyddogaethau i'w gilydd, gan osgoi dyblygu tasgau. Pwysleisiodd ran hanfodol y trydydd sector wrth gefnogi iechyd a |

| | |
|---|---|
| | gofal cymdeithasol a chredai fod Llywodraeth Cymru hefyd yn atebol o ystyried ei chanllawiau ar ddyraniad cyllid o 20% tuag at y trydydd sector a’r sector gwirfoddol.<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet:<br><br>1. Wedi nodi’r cynnydd a wnaed tuag at greu System Gofal Cymunedol Integredig ar gyfer pobl hŷn a phobl sy’n byw gydag eiddilwch;<br>2. Wedi cytuno ar fodel ICCS (Ffigur 1) fel sail i ddatblygu gwasanaethau integredig;<br>3. Wedi cymeradwyo’r Cytundeb Partneriaeth Rhanbarthol yn Atodiad 1 i’r adroddiad;<br>4. Wedi nodi’r bwriad i geisio cymeradwyaeth debyg gan BIPCTM a’r ddau awdurdod lleol arall yn y rhanbarth o fewn yr un amserlen, a chyn dechrau’r Cytundeb yn hydref 2025;<br>5. Wedi dirprwyo awdurdod i’r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles ar ôl ymgynghori â’r Swyddog Monitro a Swyddog Adran 151, i gymeradwyo telerau terfynol y Cytundeb Partneriaeth Rhanbarthol, gan gynnwys unrhyw ddiwygiadau i’r telerau a gymeradwywyd yno yn ôl yr angen, ac i ymrwymo i’r Cytundeb Partneriaeth Rhanbarthol ac unrhyw weithredoedd a dogfennau pellach sy’n ategol i’r Cytundeb Partneriaeth Rhanbarthol. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 22 Gorffennaf 2025 |

**503. Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ymgymryd â phroses gaffael ar ran Pen-y-bont ar Ogwr am wasanaethau camddefnyddio sylweddau Haen 1 a Haen 2 integredig ledled rhanbarth Cwm Taf Morgannwg.<br><br>Eglurodd fod y contractau presennol yn dod i ben ym mis Mawrth 2026, gan ganiatáu am gaffael integredig |

| | |
|---|---|
| | Iedled ardaloedd Pen-y-bont ar Ogwr, RhCT, a Merthyr Tudful. Mae grwpiau 'cynnwys defnyddwyr' gweithredol yn allweddol wrth ddatblygu a gwerthuso gwasanaethau. Daw'r rhan fwyaf o fuddsoddiad o'r gronfa taclo camddefnyddio sylweddau, gyda swm llai o gyllideb y gwasanaethau cymdeithasol. Nodir manylion y broses gaffael a'r cynigion yn adran 3 yr adroddiad.<br><br>Croesawodd y Dirprwy Arweinydd y strwythur newydd ar gyfer ymyrraeth gynnar ac atal, yn enwedig y dull "dim drws anghywir" ar gyfer mynediad ar unwaith at wasanaethau. Tynnodd sylw at bwysigrwydd ymyrryd ar unwaith ar gyfer camddefnyddio sylweddau a rôl hanfodol cyllid SMAF.<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet:<br><br>1. Wedi cymeradwyo bod CBSRhCT yn ymgymryd â'r ymarfer caffael i gomisiynu darparwr y gwasanaeth integredig ar gyfer gwasanaeth camddefnyddio sylweddau Haen 1 a 2 ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn unol â rheol 3.2.10 o Reolau Gweithdrefn Gontractau'r Cyngor, gyda chymeradwyaeth i ddyfarnu contract y gwasanaeth drwy bwerau dirprwyedig (o dan Gynllun Dirprwyo Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr) unwaith y bydd y broses gaffael a gwerthuso wedi'i chynnal;<br>2. Wedi cymeradwyo bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ymrwymo i gytundeb cydweithredu rhanbarthol gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol RhCT i nodi cyfrifoldebau pob Awdurdod Lleol ar gyfer y broses gaffael gychwynnol a'r broses o reoli contract y gwasanaeth; ac<br>3. Wedi dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cyllid a'r Swyddog Adran 151 a'r Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, AD a Pholisi Corfforaethol, i gytuno ar delerau'r cytundeb cydweithredu rhanbarthol ac unrhyw ddogfennau neu weithredoedd ategol i'r cytundeb hwnnw. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 22 Gorffennaf 2025 |

**504. Caffael Fframwaith Agored ar gyfer Darparwyr Gofal Plant Dechrau'n Deg**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid, Tai a Newid adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i |

| | |
|---|---|
| | dendro am fframwaith agored i benodi darparwyr i ddarparu lleoedd gofal plant o dan raglenni Dechrau'n Deg ac Ehangu Dechrau'n Deg. Fel rhan o'r broses dendro, bydd ffi ar gyfradd sefydlog o £18.50 y sesiwn (2.5 awr) am bob plentyn yn cael ei gweithredu ar gyfer yr holl ddarpariaeth gofal plant.<br><br>O ystyried bod gwerth blynyddol y trefniadau presennol yn y flwyddyn gyfredol yn fwy na £3 miliwn, mae'n hanfodol bod contractau'n cael eu ffurfioli drwy broses dendro a fydd yn cydymffurfio â'r Ddeddf Caffael 2023 newydd. Cynigir bod yr holl ddarparwyr presennol yn cael eu gwahodd i dendro i aros yn ddarparwyr cofrestredig awdurdod lleol ar fframwaith agored er mwyn derbyn cyllid ar gyfer lleoedd gofal plant Dechrau'n Deg.<br><br>Pwysleisiodd yr Aelod Cabinet dros Addysg a Gwasanaethau Ieuenctid bwysigrwydd rhaglen Dechrau'n Deg yn darparu rhaglenni rhianta yn ogystal â rhoi'r help ychwanegol hwnnw i blant yn ystod eu datblygiad. Felly, roedd yr ymarfer caffael hwn yn hollbwysig wrth sicrhau darparwyr a ffurfioli trefniadau i sicrhau bod y gwasanaethau'n parhau i redeg fel y dylent.<br><br>Pwysleisiodd y Dirprwy Arweinydd hefyd bwysigrwydd Dechrau'n Deg a gofynnodd i hyn gael ei wneud yn fwy amlwg mewn adroddiadau gan na chafodd ei bwysleisio ddigon yma. I adeiladu ar bwynt y Dirprwy Arweinwyr, esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc fod y gwasanaethau Dechrau'n Deg yn darparu gofal plant rhan-amser o ansawdd uchel, mynediad at rianta a chymorth iechyd, cymorth sylweddol gyda datblygiad iaith cynnar, a dull wedi'i dargedu ar gyfer meysydd o amddifadedd uchel yn ogystal â chefnogi darpariaeth cyfrwng Cymraeg.<br><br>Gofynnodd yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd a oedd cynlluniau i gau'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg yng Nghaerau. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc nad oedd unrhyw gynlluniau ar gyfer hyn.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet:<br><br>1. Wedi cymeradwyo defnyddio'r broses dendro mewn perthynas â sefydliadau preifat a'r trydydd sector sy'n darparu lleoedd Dechrau'n Deg ac Ehangu Dechrau'n Deg ar ran yr awdurdod lleol;<br>2. Wedi dirprwyo i'r Pennaeth Partneriaethau a Thai, i dendro ar gyfer fframwaith darparwyr gofal plant i ddarparu lleoedd blynyddoedd cynnar o dan raglenni Dechrau'n Deg ac Ehangu Dechrau'n Deg mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoliadol, AD a Pholisi Corfforaethol.<br>3. Wedi nodi bod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn dilyn casgliad caffael y |

| | |
|---|---|
| | Fframwaith Agored ar gyfer penderfyniad ynghylch a ddylid dyfarnu'r Fframwaith a cheisio cymeradwyaeth i ymrwymo i'r Cytundeb Fframwaith gyda chynigwyr llwyddiannus. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 22 Gorffennaf 2025 |

## 505. Cytundebau Lefel Gwasanaeth ar gyfer Gwasanaethau a ddarperir o dan y Rhaglen Dechrau'n Deg o fewn y Grant Plant a Chymunedau

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid, Tai a Newid adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i ymrwymo i gytundeb lefel gwasanaeth (SLAs) rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, wrth ddarparu cymorth i blant a theuluoedd mewn perthynas â'r rhaglen Dechrau'n Deg.<br><br>Eglurodd nad oedd unrhyw SLAs cyfreithiol rwymol ar hyn o bryd rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a darparwyr sy'n darparu gwasanaethau o dan raglen Dechrau'n Deg. Roedd yn hollbwysig, felly, fod SLAs yn cael eu rhoi ar waith i liniaru'r risg o oblygiadau ariannol, tarfu ar wasanaethau a pherfformiad y gwasanaethau a ddarperir. Cynigir y bydd gan bob darparwr sy'n darparu gwasanaethau Dechrau'n Deg o dan y rhaglen eu SLA eu hunain er mwyn cyflawni yn unol â thelerau ac amodau grant Llywodraeth Cymru.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet:<br><br>1. Wedi cymeradwyo'r broses o ymrwymo i SLAs rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, gan ddarparu'r gwasanaeth Dechrau'n Deg;<br>2. Wedi dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Partneriaethau a Thai gymeradwyo telerau terfynol yr SLAs ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a threfnu gweithredu'r cytundebau ar ran y Cyngor mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoliadol, AD a Pholisi Corfforaethol;<br>3. Wedi cymeradwyo unrhyw estyniad neu ddiwygiad i'r SLAs ac i ymrwymo i unrhyw weithredoedd a dogfennau pellach sy'n ategol i'r SLAs. |

| | |
|---|---|
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 22 Gorffennaf 2025 |

## 506. Siarter Teithio Iach

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd y Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid adroddiad a oedd yn diweddaru'r Cabinet ar waith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg ar Siarter Teithio Iach. Mae'r cynllun drafft ar gyfer cyflawni'r siarter yn cynnwys ystod eang o amcanion i sefydliadau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus weithio arnynt, gan gydnabod bod gwahanol sefydliadau yn gallu ymateb mewn gwahanol ffyrdd ar draws eu staff neu wasanaethau. Roedd y Siarter ynghlwm yn Atodiad 1 i'r adroddiad.<br><br>Gofynnodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau am eglurhad ar gymhellion fel lwfans milltiroedd ar gyfer beicio at ddibenion gwaith. Esboniodd y Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid fod systemau ar waith i staff hawlio milltiroedd am ddefnyddio beic a gafodd eu hawdurdodi drwy system dreuliau. Fel rhan o'r hyrwyddiad ar gyfer y siarter hon, byddwn yn defnyddio cyfathrebiadau mewnol i hyrwyddo hyn.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet:<br><br>1. Wedi nodi cynnwys yr adroddiad diweddaru hwn.<br><br>2. Wedi ystyried sut i gyflawni'r gweithgareddau arfaethedig sydd wedi'u cynnwys yn y Siarter (Atodiad 1 i'r adroddiad). |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 22 Gorffennaf 2025 |

## 507. Alldro Rhaglen Gyfalaf 2024–25 a Diweddariad Chwarter 1 2025–26

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd y Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid adroddiad a oedd yn diweddaru'r Cyngor ar yr alldro cyfalaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2024–2025. Diweddarodd hefyd y Cabinet ar sefyllfa'r rhaglen gyfalaf ar |

| | |
|---|---|
| | gyfer 2025–26 fel yr oedd ar 30 Mehefin 2025, a cheisiodd gytundeb gan y Cabinet i gyflwyno adroddiad i'r Cyngor er mwyn cymeradwyo rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2025–26 i 2034–35.<br><br>Dywedodd y Dirprwy Arweinydd fod llawer o gynlluniau wedi cael eu symud ymlaen eleni a oedd yn braf i'w gweld, ond nododd fod llithriad o £27 miliwn oherwydd oedi mewn prosiectau a chyllid hwyr gan y Llywodraeth. Fodd bynnag, byddai'r cynlluniau yn dal i gael eu symud ymlaen yn y flwyddyn ariannol nesaf.<br><br>Gofynnodd yr Aelod Cabinet dros Addysg a Gwasanaethau Ieuenctid os gellid defnyddio'r Gronfa Gorfodi Eiddo Gwag ar gyfer eiddo canol y dref. Eglurodd y Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid fod y gronfa ar gyfer eiddo preswyl yn unig.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet:<br><br>1. Wedi nodi Alldro Rhaglen Gyfalaf y Cyngor ar gyfer 2024–25 (Atodiad A i'r adroddiad).<br>2. Wedi nodi diweddariad Chwarter 1 Rhaglen Gyfalaf 2025–26 y Cyngor hyd at 30 Mehefin 2025 (Atodiad B)<br>3. Wedi cytuno bod y Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig (Atodiad C) yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor i'w chymeradwyo.<br>4. Wedi nodi'r Dangosyddion Darbodus ac Eraill gwirioneddol ar gyfer 2024–25 a'r dangosyddion rhagamcanol ar gyfer 2025–26 (Atodiad D). |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 22 Gorffennaf 2025 |

**508. Monitro Cyllideb 2025–26 – Rhagolwg Refeniw Chwarter 1**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd y Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid adroddiad a oedd yn manylu ar y sefyllfa ariannol refeniw, gan ddangos gorwariant net rhagamcanol o £898,000 yn erbyn cyllideb gymeradwy o £383 miliwn. Roedd hyn yn welliant sylweddol o orwariant y flwyddyn flaenorol. Esboniodd fod y gorwariant rhagamcanol yn bennaf oherwydd pwysau parhaus yn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, a Chyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr. |

| | |
|---|---|
| | Cyfeiriodd at Dabl 1 yr adroddiad a oedd yn dangos cymhariaeth o’r gyllideb yn erbyn alldro rhagamcanol ar 30 Mehefin 2025 ac amlygodd hefyd y gostyngiadau yng nghyllideb y flwyddyn flaenorol yn ogystal â monitro gostyngiadau cyllidebol ar gyfer pob cyfarwyddiaeth yn 2025–26. Roedd rhagor o fanylion yn adran 3 yr adroddiad.<br><br>Tynnodd y Dirprwy Arweinydd sylw at bwysigrwydd y monitro a’r camau a gymerwyd i liniaru pwysau gorwariant. Roedd y gorwariant rhagamcanol ar yr adeg yma y llynedd dros £9 miliwn ac felly bu gwelliant aruthrol yn ystod y 12 mis diwethaf y dylid ei nodi.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet wedi nodi sefyllfa’r refeniw rhagamcanol ar gyfer 2025–26. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 22 Gorffennaf 2025 |

## 509. Adroddiad Alldro Rheoli’r Trysorlys 2024–25

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd y Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid adroddiad a oedd yn diweddaru’r Cabinet ar weithgareddau rheoli’r trysorlys y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Dywedodd mai’r swm a fenthyciwyd yn allanol oedd £103.8 miliwn, gyda chyfradd log gyfartalog o 4.73%. Ar £36.75 miliwn o fuddsoddiadau, cafwyd £4.3 miliwn o incwm gan log.<br><br>Esboniodd fod sefyllfa dyled allanol a buddsoddiadau’r Cyngor ar 31 Mawrth 2025 yn cael ei ddangos yn Nhabl 1 yr adroddiad gyda manylion pellach i’w gweld yn Atodiad A.<br><br>Roedd y Dirprwy Arweinydd yn falch gyda’r adroddiad gan dynnu sylw at y rheolaeth gadarn o weithgareddau benthyca a buddsoddi’r Cyngor. Tynnodd sylw at y ffaith bod y Cyngor wedi ennill £4.3 miliwn mewn llog o’i fuddsoddiadau, a nododd y gellid ei roi i ddefnydd da i’r gymuned.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet: |

| | |
|---|---|
| | 1. Wedi nodi gweithgareddau Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2024–25 am y flwyddyn 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025.<br>2. Wedi nodi'r Dangosyddion ar gyfer Rheoli'r Trysorlys ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben 31 Mawrth 2025 yn erbyn y rhai a gymeradwywyd yn Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2024–25. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 22 Gorffennaf 2025 |

## 510. Polisi Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd y Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid adroddiad a oedd yn diweddaru'r Cabinet ar y Polisi Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd diweddar a oedd ynghlwm yn Atodiad A.<br><br>Eglurodd fod y Polisi Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd yn mynd i'r afael yn benodol â thri maes, sef Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd, sy'n amlinellu'r gweithdrefnau i'w dilyn pe bai unrhyw ddigwyddiadau o'r fath yn digwydd neu gael eu hamau ynghyd â'r camau y gellir eu cymryd. Cymeradwyodd y Cabinet y Polisi Gwrth-dwyll a Llwgrwobrwyo ddiwethaf ar 19 Chwefror 2019 ac roedd sawl diwygiad a diweddariad wedi cael eu cynnwys yn Atodiad A.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet wedi cymeradwyo'r Polisi Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd yn Atodiad A i'r adroddiad. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 22 Gorffennaf 2025 |

## 511. Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol Pen-y-bont ar Ogwr

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd y Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth gan y |

| | |
|---|---|
| | Cabinet i ddechrau ymgynghoriad cyhoeddus ar bolisi dyrannu tai cymdeithasol diwygiedig, a ddiweddarwyd ddiwethaf yn 2017. Mae'r polisi drafft, yn seiliedig ar angen, yn cynnig bandiau blaenoriaeth i ymgeiswyr a bydd yn destun ymgynghoriad ffurfiol dros gyfnod o 12 wythnos.<br><br>Cynghorodd fod adolygiad o'r SHAP presennol wedi dod i ben. Amlygir canfyddiadau allweddol yr adolygiad yn adran 3 yr adroddiad.<br><br>Gofynnwyd y cwestiynau canlynol gan Aelodau'r Cabinet ac ymatebodd y Prif Swyddog – Tai, Cyllid a Newid iddynt:<br><br>• Beth yw'r prif newidiadau yn y polisi newydd o'i gymharu â'r hen un?<br>Y prif newidiadau yw diwallu anghenion deddfwriaeth newydd ac anghenion gweithredol, gan gynnwys rhoi'r rhai sy'n profi digartrefedd neu dan fygythiad o ddigartrefedd yn y band blaenoriaeth uchaf (Band A) ac adolygu telerau gwahardd er mwyn osgoi cosbi unigolion yn annheg am faterion fel dyled.<br><br>• A yw'r polisi yn rhoi blaenoriaeth i drigolion Pen-y-bont ar Ogwr dros bobl o'r tu allan i'r fwrdeistref?<br>Bydd y Cyngor yn blaenoriaethu trigolion Pen-y-bont ar Ogwr, ond bydd yn ystyried atgyfeiriadau o ardaloedd eraill yn ôl yr achos, yn enwedig ar gyfer materion diogelu neu drais domestig.<br><br>• Beth yw'r broses ymgynghori a sut bydd y Cyngor yn sicrhau ei fod yn cyrraedd trigolion agored i niwed?<br>Bydd yr ymgynghoriad yn cael cyhoeddusrwydd eang drwy amrywiol sianeli. Awgrymodd y Dirprwy Arweinydd y dylid cael digwyddiadau yn y cnawd gyda chymorth Swyddog i helpu trigolion agored i niwed i lenwi'r ffurflenni a chael gwell adborth.<br><br>• Gofynnwyd am eglurder ynghylch pryder a godwyd ynglŷn â'r gyfradd ddyrannu o 75% ar gyfer Cymoedd i'r Arfordir, sy'n allanol o'i gymharu â landlordiaid cymdeithasol eraill.<br>Roedd y gyfradd ddyrannu o 75% ar gyfer Cymoedd i'r Arfordir yn rhan o gytundeb yn 2003. Mae'r Cyngor yn gweithio i gynyddu hyn i 100% ar gyfer eiddo a ariennir ganddynt ac mae'n cynnal trafodaethau gyda Cymoedd i'r Arfordir i ddiwygio'r ddogfen wreiddiol.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet: |

| | |
|---|---|
| | 1. Wedi ystyried y SHAP (yn Atodiad 1 i'r adroddiad);<br>2. Wedi cymeradwyo ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos ar y SHAP diwygiedig;<br>3. Wedi nodi y bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus a gofynnir am gymeradwyaeth o'r SHAP terfynol cyn ei fabwysiadu'n ffurfiol. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 22 Gorffennaf 2025 |

## 512. Asesiad Perfformiad Panel

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad a oedd yn hysbysu'r Cabinet am yr angen i'r Cyngor gomisiynu a threfnu asesiad perfformiad panel (PPA) cyn yr etholiadau nesaf ar gyfer llywodraeth leol, a goblygiadau'r gofyniad hwn.<br><br>Esboniodd y bydd gwaith y PPA ar y safle yn digwydd yn yr wythnos sy'n dechrau 15 Medi 2025, gyda chyfarfodydd yn dechrau ddydd Mawrth, 16 Medi, ac yn dod i ben yn gynnar yn y prynhawn ddydd Gwener, 19 Medi 2025. Nodwyd tri cham y broses PPA yn adran 3 yr adroddiad.<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet: -<br><br>1. Wedi nodi dyddiad y gwaith ar y safle ar gyfer y PPA ym mharagraff 3.1 yr adroddiad.<br>2. Wedi ystyried a chytuno ar gynigion llywodraethu ar gyfer y PPA ym mharagraffau 3.9 – 3.12 (o'r adroddiad).<br>3. Wedi ystyried a chytuno ar aelodaeth y panel ym mharagraff 3.6.<br>4. Wedi adolygu a chytuno ar fersiwn ddrafft y ddogfen gwmpasu, gyda'i meysydd ffocws arfaethedig yn Atodiad 1 i'r adroddiad. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 22 Gorffennaf 2025 |

## 513. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Nid oedd unrhyw eitemau brys. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 22 Gorffennaf 2025 |

## 514. Gwahardd y Cyhoedd

| | | |
|---|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD: | Na ddylid cyhoeddi'r eitemau canlynol gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12, 13 a 14 o Ran 4 a Pharagraff 21 o Ran 5, Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007.<br><br>Yn dilyn cymhwyso'r prawf budd cyhoeddus, penderfynodd y Cabinet, yn unol â'r Ddeddf, ystyried yr eitemau hyn yn breifat, gyda'r cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod yn ystod ystyriaeth o'r fath. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 22 Gorffennaf 2025 | |

## 515. Cymeradwyo Cofnodion Eithriedig

| | | |
|---|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD: | Bod cofnodion eithriedig y Cabinet dyddiedig 24/6/2025, yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 22 Gorffennaf 2025 | |

## 516. Prynu Gorfodol Eiddo Fu'n Wag yn yr Hirdymor

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Mae'r penderfyniad mewn perthynas â'r eitem hon wedi'i eithrio (h.y. yn gyfrinachol) |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 22 Gorffennaf 2025 |

I arsylwi'r ddadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon.

Daeth y cyfarfod i ben am 17:10.